# Taith Dylan i'r ffair fusnes

Nepell o bentref yng Nghymru, mae castell hardd, ac o'i amgylch mae caeau o laswellt gwyrdd. Dyma gartref draig garedig, gydwybodol, greadigol, uchelgeisiol a chwilfrydig o'r enw Dylan. (1)

Mae Dylan wrth ei fodd yn dysgu. O ffenest ei ystafell wely, mae'n syllu ar y caeau a'r mynyddoedd yn y pellter. Mae'n gwylio'r bobl yn y pentref islaw. Mae'n syllu ar y cymylau a'r sêr yn yr awyr. Mae pen Dylan yn llawn cwestiynau.

“Ble mae'r cymylau yn mynd? O ble mae'r sêr yn dod? Beth sydd ochr draw i'r mynyddoedd?” meddai Dylan wrth yr awyr. Mae'n edrych i lawr ar y pentref ac yn gweld y bobl yn mynd a dod. Mae'n sylwi bod y strydoedd wedi'u haddurno ag arwyddion a balŵns lliwgar, ac mae llawer o bobl wedi casglu ar lawnt y pentref. Mae gan Dylan gwestiwn newydd, “Beth sy'n digwydd yn y pentref heddiw?”

Mae Dylan yn hedfan i'r pentref ac yn sylwi ar faner enfawr a'r geiriau ‘Ffair Fusnes’ arni. O dan y faner, mae menyw yn sefyll yn dal clipfwrdd. Mae hi'n edrych yn smart iawn ac mae hi'n gwenu ar y bobl sy'n mynd heibio iddi. Mae Dylan yn chwilfrydig am y Ffair Fusnes hon, felly mae'n penderfynu mynd i gael gwybod mwy.

“Esgusodwch fi,” meddai Dylan yn gwrtais wrth y fenyw, “beth yw ffair fusnes?” Gwena'r fenyw arno.

“Mae'n gyfle i bobl sy'n rhedeg busnesau ddod at ei gilydd, i gwrdd a helpu ei gilydd,” mae hi'n esbonio. Mae Dylan wedi drysu.

“Mae'n ddrwg gen i,” meddai Dylan wrth y fenyw, yn poeni ei bod hi'n edrych yn brysur iawn, “ond, beth yw busnes?”

Ag wyneb cyfeillgar, mae'r fenyw yn troi at Dylan. “Nid oes angen ymddiheuro,” meddai yn garedig wrtho. “Galli di ddysgu popeth am fusnesau yn y ffair. Bydd stondinau yno i ymweld â nhw a chyflwyniadau i wrando arnyn nhw. Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwybod mwy am fusnesau ddod yma.” Mae'r fenyw yn rhoi sticer i Dylan â'i enw arno. Mae'n teimlo'n bwysig iawn. Mae'n cerdded i lawnt y pentref, sydd wedi'i addurno â baneri a stondinau amryliw. Wrth i Dylan edrych o'i gwmpas, mae'n gweld ei ffrind Rhiannon. Mae gan Rhiannon siop yn y pentref sy'n gwerthu bwyd, teganau ac anrhegion. Rhiannon yw un o ffrindiau gorau Dylan.

“Rhiannon!” gwaedda Dylan yn gyffro i gyd, gan chwifio ei freichiau. Mae Rhiannon yn gwenu ac yn galw Dylan draw at ei bwrdd.

“Dyna hyfryd i dy weld di, Dylan!” meddai Rhiannon yn wên o glust i glust. “Wyt ti yma i ddysgu am fusnes?” mae'n gofyn.

“Ydw,” meddai Dylan. “Alli di ddweud wrtha' i beth yw busnes?”

“Wrth gwrs!” ateba Rhiannon yn frwdfrydig. “Mae'n gallu bod braidd yn ddryslyd, ond byddaf i'n ceisio egluro.

“Mae busnes fel swydd rwyt ti'n ei chreu ar dy gyfer di dy hun. Yn hytrach na chael dy dalu gan rywun arall, rwyt ti'n meddwl am rywbeth y mae pobl ei eisiau neu ei angen ac rwyt ti'n ei werthu iddyn nhw. Rwyt ti'n creu dy swydd dy hun.

“Gallet ti wneud rhywbeth i'w werthu, gallet ti gynnig gwasanaeth, fel glanhau ceir, neu gallet ti brynu pethau a'u gwerthu i bobl eraill. Mae gen i siop. Rwy'n prynu llawer o bethau ar gyfer fy siop ac mae pobl yn dod i mewn i'w prynu. Cwsmeriaid yw enw'r bobl sy'n prynu'r pethau.”

Mae Rhiannon yn parhau, "Os bydd pobl yn wir yn hoffi'r pethau rwyt ti'n eu gwerthu, gallet ti fod â llawer o gwsmeriaid. Yna, efallai y bydd angen rhywun i dy helpu i werthu iddyn nhw i gyd. Pan fydd hyn yn digwydd, rwyt ti'n cyflogi rhywun i dy helpu. Rwyt ti'n dod yn gyflogwr ac mae'r unigolyn hwnnw yn gyflogai i ti. Rwyt ti'n dweud wrth y cyflogai beth mae angen ei wneud ac yn ei dalu ag arian am wneud y swydd." Mae Rhiannon yn cymryd saib i weld a yw Dylan yn deall. (2)

Mae Dylan yn meddwl am eiliad am bopeth y mae Rhiannon wedi ei ddweud. "Felly, rwyt ti yn fusnes?" gofynna Dylan.

"Rwy'n berchen ar fusnes, ond nid wyf i yn fusnes. Y busnes yw rhywbeth rwyf i wedi ei greu" esbonia Rhiannon. (3)

"Yn y ffair fusnes heddiw, byddi di'n gweld llawer o wahanol fathau o fusnesau" meddai Rhiannon wrth Dylan. "Dylet ti fynd o gwmpas y gwahanol stondinau i weld beth alli di ei ddysgu am y busnesau hyn."

Mae Dylan yn meddwl bod hwn yn syniad gwych. Mae wrth ei fodd yn cwrdd â phobl newydd ac yn dwlu ar ofyn cwestiynau!

"Diolch, Rhiannon," meddai Dylan. "Fe ddof i'n ôl i dy weld di wedyn."

Maen nhw'n codi llaw ar ei gilydd wrth ddweud hwyl fawr ac ymlaen a Dylan i'r ffair.

Mae'n gweld pob math o arwyddion deniadol. Pob un â lliwiau hardd a llythrennau bras. Mae lluniau ar rai a symbolau ar rai eraill. Mae'n sylwi ar arwydd arbennig o ddeniadol a'r geiriau 'Meysydd Chwarae Carter'. Mae Dylan yn mynd draw at y stondin i gyflwyno ei hun.

"Helo" meddai Dylan yn gwrtais wrth y dyn y tu ôl i'r stondin. "Fy enw i yw Dylan ac rwy'n dysgu am fusnes. A fyddai ots gennych chi petawn i'n gofyn i chi am eich busnes?"

"Byddwn i wrth fy modd," ateba'r dyn yn eiddgar. "Fy enw i yw Paul Carter ac rwy'n dwlu ar helpu pobl sy'n meddwl am fusnes."

"Beth ydych chi'n ei wneud?" gofynna Dylan.

"Mae fy musnes i yn cynllunio ac yn adeiladu meysydd chwarae. Dyna'r cynnyrch rydym ni'n ei gynnig. Mae'n wasanaeth pwysig iawn ar gyfer ysgolion a chymunedau sydd eisiau meysydd chwarae ond heb syniad sut i'w hadeiladu."

Mae Dylan yn edrych ar arwydd y stondin ac yn gofyn, "Pam mai Meysydd Chwarae Carter yw enw eich busnes?"

"Dewisais i enw a fyddai'n dweud wrth fy nghwsmeriaid beth rwyf i'n ei wneud a phwy ydw i. Paul Carter ydw i ac rwy'n adeiladu meysydd chwarae," atebodd Mr Carter.

"Mae hwnna'n syniad da iawn," meddai Dylan. "Diolch yn fawr am siarad â mi Mr Carter." Mae Dylan yn codi ei law i ffarwelio â Mr Carter.

"Croeso mawr i ti Dylan," ateba Mr Carter.

Mae Dylan yn parhau i'r ffair gan edrych o gwmpas ar yr holl bobl a'r arwyddion deniadol. Mae stondin arall yn denu sylw Dylan. Y geiriau ar yr arwydd yw 'Gemau Dydd Da'. Y tu ôl i'r stondin mae menyw â gwallt golau yn eistedd ac mae ganddi lygaid llachar a gwên lydan.

"Prynhawn da!" meddai'r fenyw wrth Dylan yn frwdfrydig. "Fy enw i yw Cheryl, a dyma fy musnes i. Rwy'n cynllunio ac yn gwneud gemau bwrdd ar gyfer plant...a dreigiau ifanc."

"Rwyf i wrth fy modd â gemau bwrdd!" meddai Dylan wedi cyffroi. "Rwy'n dysgu am fusnes heddiw. Gwelais i eich arwydd hyfryd ac roeddwn i eisiau gwybod am fusnes sy'n gwneud gemau bwrdd."

Mae'r fenyw yn edrych ar yr arwydd â balchder. "Rwy'n falch dy fod ti'n ei hoffi," meddai hi. "Fi gynlluniodd hwnna. Rwyf wrth fy modd yn cynllunio ac yn gwneud pethau. Rwy'n hoffi paentio a darlunio, ac rwy'n dwlu ar greu gemau. A dweud y gwir, roeddwn i'n arfer creu gemau am hwyl cyn i rywun ddweud wrtha' i y gallwn i werthu fy ngemau. Roedd hynny flynyddoedd lawer yn ôl erbyn hyn, ac rwyf wedi cael llawer iawn o hwyl yn creu ac yn chwarae gemau ers hynny."

Mae Dylan yn rhyfeddu at hanes y fenyw hon a'i busnes. Mae'n meddwl pa mor hyfryd y byddai i droi hobi yn fusnes, i ennill arian yn gwneud rhywbeth rwyt ti wrth dy fodd yn ei wneud. Hoffai siarad â'r fenyw hon drwy'r dydd ond mae'n penderfynu y dylai fynd i edrych ar ragor o stondinau cyn diwedd y dydd.

Mae'n gwenu ar y fenyw ac yn dweud, "Mae arna' i ofn bod yn rhaid imi fynd i weld stondin arall cyn diwedd y dydd. Mae hi wedi bod yn hyfryd iawn clywed am eich busnes. Hoffwn i petai gen i amser i aros i glywed mwy amdano."

Mae'r fenyw yn ebychu ac yn pwyntio bys yn yr awyr fel ei bod wedi cael syniad. Mae hi'n chwilio mewn bag o dan y bwrdd ac yn dod o hyd i gerdyn bach. "Dyma fy ngherdyn busnes!" meddai hi. "Rwy'n rhoi'r rhain i bobl sydd eisiau rhagor o wybodaeth am fy musnes. Mae fy enw, fy rhif ffôn, fy nghyfeiriad e-bost a chyfeiriad fy ngwefan ar y cerdyn. Os ei di i fy ngwefan, fe gei di ragor o wybodaeth am Gemau Dydd Da a'r pethau rwy'n eu gwerthu."

Mae Dylan yn derbyn y cerdyn ac yn edrych arno. Ar un ochr mae llun bach o ddau ddis a chardiau chwarae. Mae llythrennau glas sy'n edrych fel eu bod wedi'u paentio gyda brws bach bach yn sillafu 'Gemau Dydd Da'. Oddi tano, mewn llythrennau coch llai mae'r geiriau 'Dyddiau da fel yr hen ddyddiau i chi a'ch teulu'. Ar ochr arall y cerdyn, mewn llythrennau taclus wedi'u teipio, mae'r wybodaeth gyswllt y disgrifiodd Cheryl. Mae Dylan yn dal y cerdyn at ei galon. "Diolch" mae'n sibrwd wrth iddo gerdded i ffwrdd o'r stondin. (4)

Mae Dylan yn edrych o gwmpas y ffair i ddewis un stondin arall i ymweld â hi. Gerllaw, mae arwydd a'r geiriau 'Digwyddiadau Tylluan'.

Mae dyn smart iawn yn sefyll yn hyderus wrth flaen y stondin, yn codi ei law ar bobl o amgylch y ffair. Mae'n sylwi ar Dylan ac yn gwenu. "Helo. Mae'n rhaid mai ti yw Dylan?"

"Ie," meddai Dylan wedi'i synnu. "Sut ydych chi'n gwybod fy enw?"

"Mae pawb wedi bod yn siarad am y ddraig glyfar a chwilfrydig sydd eisiau dysgu am fusnes. Nid oes llawer o ddreigiau yma heddiw," meddai gan chwerthin yn gyfeillgar. "Mae'n hyfryd dy gwrdd."

Mae Dylan yn chwerthin yn swil. "Diolch yn fawr iawn," mae'n ateb. "A fyddai ots gennych chi ddweud wrtha' i am eich busnes chi?" mae'n gofyn.

"Wrth gwrs! Byddwn i wrth fy modd!" meddai'r dyn yn frwdfrydig. "Mae Digwyddiadau Tylluan yn fusnes gwasanaeth. Mae hynny'n golygu fy mod i'n gwerthu gwasanaeth yn hytrach nag eitem neu wrthrych. Rwy'n trefnu digwyddiadau, fel y ffair fusnes hon. Bydd pobl yn cysylltu â mi oherwydd bod ganddyn

nhw ffair haf, neu briodas neu ddigwyddiad codi arian ac maen nhw angen i mi eu helpu nhw i'w gynllunio. Mae gan fy musnes dîm o bobl drefnus a chreadigol iawn sy'n meddwl am syniadau gwych ac yn trefnu digwyddiad llawn hwyl."

"Mae hynny yn ddiddorol iawn," ateba Dylan. "Sut gwnaethoch chi feddwl am syniad mor anarferol ar gyfer busnes?" gofynna Dylan.

"Pan oeddwn i'n blentyn, roeddwn i bob amser yn drefnus iawn, a phenderfynais fy mod i eisiau gyrfa yn trefnu digwyddiadau. Es i i'r brifysgol ac astudio Rheoli Digwyddiadau. Yna cefais swydd gyda chwmni sy'n trefnu digwyddiadau chwaraeon mawr fel cystadlaethau rygbi. Roeddwn i'n mwynhau fy ngyrfa yn fawr ond roeddwn i eisiau gwneud mathau eraill o ddigwyddiadau, nid dim ond rhai chwaraeon. Un dydd, fe wnes i gwrdd â menyw fusnes ac fe wnaeth hi fy ysbrydoli. Dechreuais Digwyddiadau Tylluan ychydig o fisoedd yn ddiweddarach."

"Waw!" ateba Dylan â'i lygaid led y pen ar agor. "Rydych chi wedi gweithio'n galed iawn," ychwanegodd, wedi ei syfrdanu gan hanes y dyn.

"Wel diolch, Dylan" ateba'r dyn yn ddiolchgar. "Mae dechrau a rhedeg dy fusnes dy hun yn waith caled iawn, ond rwy'n ei fwynhau yn fawr iawn."

"Oes ots gennych chi os wyf i'n gofyn am enw eich busnes?" ychwanega Dylan, gan sylwi bod y ffair yn dechrau cau."

"Dim o gwbl," ateba'r dyn. "Roeddwn i eisiau bod gan fy musnes bersonoliaeth. Penderfynais ei enwi ar ôl tylluan gan fod pobl fel arfer yn meddwl am dylluanod fel adar doeth a manwl gywir. Gobeithio bod hynny'n ateb dy gwestiwn di Dylan. Mae arna' i ofn bod yn rhaid i mi bacio fy mhethau am y dydd, ond roedd hi'n bleser mawr dy gwrdd."

"Diolch yn fawr iawn," meddai Dylan yn gwrtais wrth y dyn. Mae'n codi ei law i ffarwelio ac yn edrych o'i gwmpas am ei ffrind Rhiannon cyn mynd adref. (5)

Wrth i Dylan gerdded i ffwrdd, mae'n sylwi ar Rhiannon yn estyn dau gwpanaid o siocled poeth tuag ato, gan amneidio â'i phen iddo ymuno â hi. Mae Dylan yn hedfan dros y dorf i fynd ati.

"O Rhiannon," ochneidia "Rwyf i wedi cael diwrnod mor fendigedig. Rwyf i wedi cwrdd â llawer o bobl hyfryd a diddorol ac rwyf i wedi dysgu gymaint am fusnesau. Rwyf i eisiau dechrau fy musnes fy hun un dydd."

Mae Rhiannon yn rhoi cwpanaid o siocled poeth i Dylan ac yn gwenu. "Rwyf i mor falch o glywed hynny Dylan. Mae gen ti lawer o sgiliau a fyddai'n dy wneud ti'n dda iawn am redeg busnes."

"Oes yna?" gofynna Dylan wedi ei synnu a'i gyffroi. "Pa sgiliau sydd gen i sy'n dda ar gyfer rhedeg busnes?"

Mae Rhiannon yn eistedd wrth ymyl Dylan wrth iddo gymryd llymaid o'i siocled poeth ac yn gwenu. "Rwyt ti'n gweithio'n galed, rwyt ti'n greadigol, mae gen ti lawer o syniadau cyffrous ac rwyt ti'n hoffi gweithredu ar y syniadau hynny. Efallai y dylet ti feddwl am ddechrau busnes bach nawr?"

Mae Dylan yn meddwl am eiliad ac yn cymryd llymaid arall o'i siocled poeth. Mae wedi'i ysbrydoli gan yr holl bobl y mae wedi cwrdd â nhw heddiw, ac mae'n ysu am gael dechrau ei fusnes ei hun. Mae Dylan yn meddwl am y gwahanol fusnesau wrth i dân gwyllt danio drwy'r awyr i nodi diwedd y ffair.

Mae'n meddwl am Cheryl a sut y gwnaeth hi droi hobi yn fusnes, mae'n meddwl am Mr Carter a'r meysydd chwarae y mae'n eu hadeiladu, mae'n meddwl am y dyn o Digwyddiadau Tylluan a chymaint y mae'n dwlu ar fod â busnes.

Mae Rhiannon yn estyn i'w bag ac yn rhoi taflen i Dylan. "Pan wyt ti'n dechrau busnes, mae angen i ti wneud ychydig o gynllunio," meddai hi. "Bydd angen i ti feddwl am rai manylion pwysig iawn. Gall hon dy helpu." Mae Dylan yn edrych ar y daflen. Ar y blaen mae'r geiriau 'Dechrau busnes – Canllaw Defnyddiol'. Y tu mewn i'r daflen mae rhestr o gwestiynau o dan y teitl 'Cynllunio Busnes'. Mae Dylan yn darllen y rhestr yn ofalus.

**Cynllunio Busnes**

- Pa gynnyrch fydd eich busnes yn ei werthu?
- Pwy fydd yn prynu eich cynnyrch?
- Faint fydd cost eich cynnyrch i chi?
- Pa bris fydd eich cwsmeriaid yn ei dalu?
- Faint o elw fyddwch chi'n ei wneud?
- Sut byddwch chi'n dweud wrth eich cwsmeriaid am eich cynnyrch?

Mae Dylan yn gorffen ei siocled poeth ac yn penderfynu y byddai'n well iddo fynd adref i gael ei swper. Mae'n diolch i Rhiannon am y siocled poeth ac yn codi ei law i ffarwelio â hi.

Mae Dylan yn hedfan i mewn i'w gastell, ac mae'r tân wedi ei gynnau yno. Mae'r fflamau yn dawnsio o amgylch y lle tân ac yn lliwio'r ystafell â golau oren, cynnes. Mae'n eistedd mewn cadair fawr feddal ac yn codi ei draed. Mae'n estyn i'w fag ac yn dod o hyd i'r daflen. Wrth iddo ddarllen wrth y tân, mae ei feddwl yn llawn syniadau cyffrous.

"Byddaf i'n dechrau busnes un dydd," meddai wrth ei hun â gwên, wrth iddo suddo yn ddyfnach i'r gadair gyfforddus. (6)

1. Gadewch i ni ystyried yr ansoddeiriau hyn. Beth maen nhw yn ei ddweud wrthym am Dylan?
2. Pa fusnesau allwn ni feddwl amdanyn nhw? (Ceisiwch restru amrywiaeth eang o fusnesau drwy ofyn am swyddi rhieni neu deulu, e.e. siopau, gwneud a gwerthu teisennau, siopau ar-lein, cyflenwyr trydan, banciau, cwmnïau atgyweirio, cwmnïau adeiladu, yswiriant ac ati)
3. Gadewch i ni weld a ydym ni'n gallu deall beth y mae Rhiannon yn ei esbonio wrth Dylan.
    a. Defnyddiwch rai o'r enghreifftiau canlynol gydag enwau eich dysgwyr.
        i. Gadewch i ni ddychmygu bod gan 'Sara' syniad gwych a'i bod yn meddwl "Rwy'n hoffi golchi ceir. Gallai pobl fy nhalu i olchi eu ceir?" Fe allai hi gael swydd mewn busnes, yn golchi ceir ac yn cael ei thalu am helpu. Neu gallai hi ofyn i'w chymdogion os bydden nhw'n dymuno iddi olchi eu ceir am £4. Ni wnaeth hi ddod o hyd i swydd, fe wnaeth hi greu un. Cafodd syniad a daeth o hyd i gwsmeriaid.
        ii. Dychmygwch fod 'Rhys' yn dda iawn am wneud teisennau ac y byddai un diwrnod wrth ei fodd yn gweithio mewn siop deisennau. Yna, mae rhywun yn dweud wrtho "Galli di greu dy swydd dy hun. Gallet ti ddechrau busnes yn gwneud teisennau ac yn eu gwerthu i bobl." Mae Rhys yn dechrau dweud wrth bobl ei fod yn gallu gwneud teisen ar eu cyfer am £10. Cyn hir, mae pobl yn gofyn iddo wneud teisen ac yn ei dalu £10 am bob un. Mae wedi dechrau busnes yn gwneud teisennau.

iii. Dychmygwch fod 'Angharad' un diwrnod, yn sylweddoli bod pobl yn y parc yn mynd yn sychedig iawn ac nad oes ganddyn nhw ddiod bob tro. Mae hi'n cael syniad da iawn i osod bwrdd yn y parc yn gwerthu dŵr a sudd ffrwythau. Nid oes ganddi swydd mewn siop, mae hi wedi creu ei siop fach ei hun. Ei busnes ei hun.

4. Beth yw eich barn ar enw a slogan y busnes hwn? Beth mae'n ei ddweud wrthym am y busnes hwn? Beth mae'n gwneud i ni feddwl amdano?
5. Beth oeddem ni'n ei feddwl am y busnesau hynny?
    a. Beth oedd eich hoff syniad?
    b. Pa enwau busnesau oeddech chi'n eu hoffi?
    c. Pa gwestiynau fyddech chi wedi eu gofyn i berchnogion y busnesau?
6. Rydym ni wedi dysgu llawer am fusnes, ond mae gan Dylan ychydig o waith cartref! Gadewch i ni helpu Dylan i ddeall y cwestiynau ar y daflen. Gallwch chi ddefnyddio'r eirfa i'ch helpu â diffiniadau ac enghreifftiau. Gan ganolbwyntio ar y geiriau allweddol, nodwch fanylion pob cwestiwn er mwyn cael dealltwriaeth syml.
    a. Pa **gynnyrch** fydd eich busnes yn ei werthu?
    b. **Pwy** fydd yn prynu eich cynnyrch?
    c. Faint fydd **cost** eich cynnyrch i chi?
    ch. Pa **bris** fydd eich cwsmeriaid yn ei dalu?
    d. Faint o **elw** fyddwch chi'n ei wneud?
    dd. Sut byddwch chi'n dweud wrth eich **cwsmeriaid** am eich cynnyrch?

### Syniadau tasg ar sail y stori

Gofynnwch i'r dysgwyr, mewn grwpiau bach, i feddwl am syniad ar gyfer busnes ac i roi enw i'w busnes. Un ar y tro, gofynnwch i'r grwpiau gyflwyno eu syniadau yn anffurfiol i'r dosbarth.

Gofynnwch i'r dysgwyr droi eu byrddau yn stondinau ar gyfer ffair fusnes ddychmygol. Gallai'r dysgwyr greu arwydd, cerdyn busnes a/neu daflen ar gyfer eu busnes. Caniatewch i'r dysgwyr symud o gwmpas yn eu tro i ymweld â'r stondinau a gofyn cwestiynau, gan ddychmygu bod eu busnesau yn rhai go iawn.